

Cymuned Iachusol Edessa

Wythnos ar ôl wythnos drwy gydol y flwyddyn, mae cynulleidfaoedd o Gristionogion Uniongred drwy'r byd yn cychwyn eu dathliad o'r Offeren Ddwylfol - y gwasanaeth Cymun - drwy i'r offeiriad lafar-ganu'r geirau hyn: '*Bendigedig yw Teyrnas y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, yn awr, a hyd byth, ac yn oes oesoedd*'. Mae'r gynulleidfa - neu gôr neu gantor ar ran pawb - yn ateb 'Amen' – '*felly y bo*'.

I beth yn union mae'r gynulleidfa'n mynegi eu cytundeb wrth ateb 'Amen'? Darllenwn y geiriau hyn a ddywed Iesu Grist am Ei Deyrnas: '*Yr Iesu a atebodd, Fy mrenhiniaeth i [h.y. Teyrnas] nid yw o'r byd hwn...*' Ioan 18:36

Mae Sant Paul yntau yn cyfarwyddo Cristionogion Rhufain gan wrthgyferbynnu eu bywyd hwynt â'r hyn sydd o'u cwmpas: '*A pheidwich â chydymffurfio â'r byd hwn...*' Rhufeiniaid 12:2

Ai dweud 'Amen' mae'r gynulleidfa reit ar gychwyn yr Offeren Dwyfol i gysyniad o fyd neu gyflwr arall-fydol sydd ar ei orau yn beth i obeithio amdano ac na wnelo ddim â'r byd mae nhw'n byw ynddo? Oes yna berthynas o gwbl rhwng y Deyrnas y mae Crist yn ei chyhoeddi a'i gwireddu a bywyd y byd hwn? Ac os oes, beth yw'r berthynas?

I geisio ateb hyn, rwyf am eich gwadd i ddod gyda mi ar bererindod i ddinas Edessa.

Erbyn y bumed ganrif, roedd dinas Syriaidd Edessa (bellach Şanlıurfa yn Nhwrci) yn ganolfan Gristionogol gosmopolitaidd, nodedig oedd wedi cyrraedd pinacl uchel, nid yn unig yn fasnachol ond hefyd yn ddiwylliannol a chrefyddol, gydag academiâu Groegaidd, Syriaidd ac Armenaidd wedi eu lleoli yno.

Yn Syrieg - sy'n dafodiaeth o Aramaeg, yr iaith a siaradai Iesu Grist - mae'r gair am *iachawdwriaeth* yn golygu *bywyd* hefyd, ac felly, nid yw'n syndod bod iachâd corff ac enaid yn thema flaenllaw mewn llenyddiaeth Syriaidd. Yn wir, gelwir yr Ewcharist – y Cymun Sanctaidd – yn *Feddyginiaeth Bywyd*, yn gyfrwng iachâd enaid a chorff gan gynnwys iachad y gymuned ac iachad drwy gyfrwng y gymuned.

Mae cymuned yn medru dioddef yr union bethau y mae unigolion yn eu dioddef – newyn, anghyfiawnder, gormes, afiechyd a marwolaeth. Gall cymuned ddioddef marwolaeth ar raddfa fawr mewn rhyfel neu bla. Yn wir, fel y gwyddom yn dda, mae'r pla presennol yn gormesu cymuned fyd-eang y ddynoliaeth.

Yn nhermau ffydd, mae yna gyd-ddibyniaeth rhwng yr unigol a'r gymuned ffydd. Ni all yr Eglwys fodoli heb Gristionogion unigol, ac fel y mae Sant Paul yn ei bwysleisio nid yw'n bosib bod yn Gristion heb fod yn rhan o Gorff Crist – yr Eglwys:

'Oherwydd fel y mae'r corff yn un, a chanddo lawer o aelodau, a'r rheini oll, er eu bod yn llawer, yn un corff, fel hyn y mae Crist hefyd...Oherwydd trwy un Ysbryd y bedyddiwyd ni oll yn un corff... Canys y corff nid yw un aelod, eithr llawer. Eithr yr awr hon Duw a osododd yr aelodau, bob un ohonynt yn y corff, fel yr ewyllysiodd Efe... Ond yr awron llawer yw'r aelodau, eithr un corff...Os bydd un aelod yn dioddef, y mae pob aelod yn dioddef gydag ef.Yn awr, chwi yw Corff Crist, ac y mae i bob un ohonoch le fel aelod'. 1 Corinthiaid 12:12sqg

Mae yna gysylltiad felly rhwng dioddefaint yr unigolyn a dioddefaint y gymuned ac felly hefyd rhwng iachâd yr unigolyn ac iachâd y gymuned

I'r ganrif ffyniannus a gloyw honno yn hanes Edessa y perthyn dwy ddogfen hynod sydd yn allweddol i ddirnad sut oedd dinas Edessa yn ei hamgyffred ei hun. Canolbwyntiwn ar un o'r rhain, sef *'Dysgeidiaeth Adai'*¹ – dogfen y mae iachâd yr unigolyn ac iachâd gymunedol y ddinas yn themâu allweddol ynddi.

Mae *Dysgeidiaeth Adai* yn arddel sylfaen Apostolaidd Eglwys Gristionogol Edessa, ac yn adrodd yr hanes bod Abgar², brenin claf Edessa wedi anfon at Grist, gan Ei gyfarch yn arwyddocaol iawn, fel *Y Meddyg Da*, gan ofyn Iddo ddod i'w ddinas i'w iacháu³, ac er na ddaeth yr Iesu i Edessa, bod yr Apostol Sanctaidd Adai wedi dod yna gyda'i ddisgybl Maris.

Yn *Dysgeidiaeth Adai*, dywedir i'r Apostol Sanctaidd Adai gael ei groesawu'n llawen gan y Brenin Abgar am ddod ag *'iachâd ac iachawdwiaeth'* gan Grist i'r

¹ *Dysgeidiaeth Adai* [*The Teaching of Addai*]: y Syrieg gwreiddiol gyda chyfieithiad Saesneg, George Howard. Scholars Press, 1981]

² Abgar V^{ed}, brenin rhwng 4C.C. a 7A.D., ac eto o 13A.D. hyd 50A.D.

³ Adroddir yr hanes gan yr hanesydd eglwysig Ewsebiws, esgob Caesarea - adnabyddus am ei *Hanes Eglwysig* a gyfansoddodd rhwng 312 and 324.

ddinas. Y cyntaf i gael ei iacháu yn Edessa yw'r Brenin Abgar ei hun ac wedyn mae Adai yn iacháu llaweroedd yn y ddinas. Mae'r brenin yn galw'r dinasyddion ynghyd i glywed pregethu'r Apostol Adai. Mae yntau'n egluro bod y gwyrthiau iachâu hyn yn profi gwirionedd yr Efengyl y mae wedi cael ei anfon i'w phregethu. Yn ganlyniad i'r gwyrthiau iacháu, a phregethu Adai, mae gwŷr a gwragedd Edessa yn cael eu bedyddio'n Gristionogion.

O'r adeg honno ymlaen, yr hyn a welwn yn Edessa o dan arweinid Adai a chyda nawdd Abgar yw datblygiad bwriadol a systematig cymuned Gristionogol a addolai, a ddysgai, a oedd yn cenhadu ac a wasanaethai. Mae *Dysgeidiaeth Adai* yn disgrifio cymuned sy'n ffyddlon i'r arweiniad draddododd yr Apostol Adai o'i wely angau, ac sy'n dangos y ffyddlondeb hwnnw yn ei gweithgareddau a'i phregethu: *'Roedd y gwŷr a'r gwragedd oll yn weddaidd, anrhydeddus, sanctaidd a phur...roeddent yn byw yn anrhydeddus mewn gwasanaethu diwyd, gan ryddhau beichiau'r tlodion ac ymweld â'r cleifion'*.⁴

'Roedd ond cael trem arnynt yn lledaenu tangnefedd i'r rhai a'i gwelent...Canys yr oeddent yn eu person yn dangos drwy eu gweithredoedd yr hyn yn union a lefarent wrth eraill ac yr annogent eraill i'w wneud'. (ibid 103).

Nid yw gwyrthiau iacháu unigolion ar gychwyn hanes yr Eglwys Gristionogol yn Edessa yn ddibenion cyflawn ynddynt eu hunain. Yn hytrach, maent yn rhan o greu unigolion a chymuned iach all fod yn gyfrwng iacháu, ac sydd â dyletswydd i fod yn rhan o'r dasg o greu cymdeithas iach lle y ceir nid yn unig ddarpariaeth ofalus a helaeth ar gyfer addoliad, ond hefyd ymrwymiad gan y rhai a iachawyd i ddod ag iachâd i eraill yn y gymuned.

Mae'r thema o i iacháu yn amlwg mewn gweithiau llenyddol Syriaidd eraill, er enghraifft, *Awdlau Selyf*⁵ o'r ail ganrif A.D., ac mae'r cysylltiad rhwng addoliad ac iachâd yn flaenllaw yn y cerddi. Gwelwn y Cristion yn sefyll gan addoli Duw gyda'i gorff a'i enaid, ac mae hyn yn newid yr addolwr, gan ei adnewyddu wrth iddo ei roi ei hun yn gyfangwbl i Dduw.

*'Dyrchafwyd fy nghalon a'i chyfoethogi yng nghariad y Goruchaf
Fel y moliannwn Ef â'm henw.
Cryfhawyd fy aelodau*

⁴ *'The Teaching of Addai'* adran 101

⁵ *'The Odes of Solomon'* Cyfieithiad James. H. Charlesworth, Sheffield Academic Press 1977

*Ffodd llesgedd o'm corff,
Ac fe safodd [fy nghorff] yn gadarn drwy ewyllys Duw'. (Awdl 8)*

*'Dyrchefais fy mreichiau fry
Oblegid tosturi'r Arglwydd.
Fe'm dyrchafwyd gan fy Nghynorthwywr
Yn ôl Ei dosturi a'i iachawdwriaeth.
Ymddiosgais dywyllwch
Gwisgais oleuni.
A minnau, megais aelodau newydd megis -
Nad oedd ynddynt nad afiechyd
Na chystudd na didoddef. (Awdl 21)*

Mae awdur yr *Awdlau* yn credu bod Duw yn treiddio ein bodolaeth y mwyaf y rhoddwn ein hunain Iddo mewn addoliad, a bod Ei iachâd yn effeithio ar ein corff ac ar ogwydd ein hanian, gan ddod â llonyddwch a gorffwys inni.

Mae *Awdlau Selyf* yn ysgifeniadau Syriaidd cynnar iawn. Wrth i'r gymuned Gristionogol gynyddu, mae'r pwyslais ar addoliad ac iachâd y gymuned ei hun yn tyfu'n thema flaenllaw, megis yn *Athrawiaeth Adai* fel y gwelsom eisoes, ac felly hefyd yn ysgrifeniadau Sant Aphrahat y Doethwr Persiaidd (c 280-c345): *'Rhoddwch orffwys i'r lluddiedig, ymwelwch â'r cleifion, darperwch ar gyfer y tlodion: dyma weddi yn wir'.⁶*

Mae Sant Aphrahat mor ymwybodol o le'r unigolyn yng nghorff y gymuned, fel ei fod yn datgan fod angen i'r credadyn weithredu i ddod ag iachâd a chysur i eraill os yw am dderbyn iachâd ac iachawdwriaeth Crist.

Yn un o'i emynau, dywed yntau - y 'cawr' diwinyddol a llenyddol, Sant Ephrem y Syriad (c306-373) -

*'Troediwch eich camrau wrth ymweld â'r cleifion,
A boed i ddyluniad eich Arglwydd gael ei bortreadu yn eich calon'.⁷*

Yn wir, un o hoff themâu Sant Ephrem yw mai Crist yw *Meddyginiaeth Bywyd*.

⁶ *Arddangosiad 4 – 'Ar Weddi'*. Cyfieithiad gan Sebastian P. Brock yn *The Syrian fathers on Prayer and the Spiritual Life*. Cistercian Publications 1987

⁷ *Ephrem the Syrian, Hymns on Virginity 2:15*. Cyfieithiad Kathleen McVey, *Ephrem the Syrian: Hymns*. Paulist press 1989

Ar un wedd, hawdd gofyn pa mor berthnasol inni heddiw yw patrwm a gweledigaeth bywyd eglwysig Edessa yn y bumed ganrif.

Efallai y cawn yr ateb os edrychwn ar rai o'r egwyddorion fu'n sail i weledigaeth a gweithgaredd teyrnas Edessa yn dilyn troedigaeth y Brenin Abgar V^{ed}.

Roedd y Brenin Abgar yn argyhoeddedig ei fod wedi derbyn iachâd dwyfol.

- ❖ Roedd amgylchiadau mabwysiadu'r Ffydd – iachâd y brenin a'r gwyrthiau iacháu a gyflawnodd yr un oedd wedi eu cenhadu, sef Sant Adai – wedi eu hargyhoeddi bod iacháu yn un o hanfodion y Ffydd Gristionogol.
- ❖ Gwelent fod cysylltiad rhwng iachâd corff yr unigolyn (i enwi un math o iachâd) a 'chorff' cymuned Edessa (sef cyd-destun iachâd y brenin a'r bobl).
- ❖ Credent mai rhan annatod o'u Ffydd oedd bod iachâd yr unigolyn yn ei alw, ei gymhwyso a'i rymuso i fod yn gyfrwng iachâd yn y gymuned ac i'r gymuned.
- ❖ Yn ychwanegol at y cysylltiad annatod rhwng derbyn a bod yn gyfrwng iachâd, gwela'r awduron Syriaidd gysylltiad cyfochrog ac annatod rhwng addoliad ac iachâd, a bod addoliad, wrth gwrs, yn cynnwys bod y gymuned ffydd yn cyd-addoli.

Onid yw'r egwyddorion hyn sy'n sail i'r weledigaeth 'Syriaidd' hon o ganrifoedd cynharaf Cristionogaeth lawn mor ddilys ar gyfer ein cymdeithas gyfoes, ac yn benodol ar gyfer Cymru gyfoes? Ac onid yw ffyniant rhai o'r cymunedau ffydd cyfoes mwyaf hyfyw yn dangos fod ffydd, gweddi a'r dyhead ysol am heddwch a chyfiawnder a'r frwydr drostynt yn parhau yn nodweddion llawn mor greiddiol yn yr oes hon ag yn Edessa'r bumed ganrif? Efallai y cawn gyfle i graffu ymhelach ar hyn.

+Tad Deiniol, Blaenau Ffestiniog

Mehefin 2021